Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Cynnyrch Organig (Cynhyrchu a Rheoli) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020** |
| **DYDDIAD** | **16 Hydref 2020** |
| **GAN** | **Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd** |

**OS a osodwyd yn Senedd y Deyrnas Unedig sy'n newid is-ddeddfwriaeth mewn maes datganoledig.**

**Rheoliadau Cynnyrch Organig (Cynhyrchu a Rheoli) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020**

Mae Rheoliadau 2020 yn diwygio'r ddeddfwriaeth ganlynol sy'n gymwys i Gymru:

<u>Rheoliadau'r UE</u>

- Rheoliad y Comisiwn (EC) rhif 889/2009 sy'n nodi rheolau manwl ar gyfer gweithredu Rheoliad y Cyngor (EC) rhif 834/2007 ar gynhyrchu organig a labelu cynnyrch organig mewn cysylltiad â chynhyrchu, labelu a rheoli organig.

<u>Is-ddeddfwriaeth</u>

- Rheoliadau Cynhyrchu a Rheoli Organig (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019
- Rheoliadau Cynhyrchu Organig (Rheoli Mewnforion) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019
- Rheoliadau Cynnyrch Organig (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019

**Unrhyw effaith y gall yr offeryn statudol ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**

Mae Rheoliadau 2020 yn ymwneud â meysydd sydd o fewn cymhwysedd datganoledig. Mae'r diwygiadau'n sicrhau bod swyddogaethau presennol Gweinidogion Cymru'n cael eu cadw cyn belled â phosibl mewn perthynas â chyfraith yr UE a ddargedwir a bod y llyfr statud yn gweithredu'n briodol yn dilyn diwrnod cwblhau'r Cyfnod Gweithredu, ar ddiwedd y Cyfnod Pontio.

## Diben y diwygiadau

Mae'r OS yn diwygio set o ddeddfwriaeth ar gynnyrch organig, yn bennaf at ddiben gwneud newidiadau sy'n ofynnol yn sgil cyflwyno Protocol Gogledd Iwerddon, yn ogystal â chywiro cyfeiriadau at y Comisiwn Ewropeaidd, Aelod-wladwriaethau a'r Undeb Ewropeaidd. Mae newidiadau eraill wedi'u gwneud i gywiro gwallau teipograffyddol.

Mae Rheoliadau 2020 a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n gosod allan effeithiau'r diwygiadau, ar gael yn y fan hon:
https://statutoryinstruments.parliament.uk/timeline/RIqKi0nf/SI-2020/

## Pam y cafodd cydsyniad ei roi

Mae cydsyniad wedi'i roi i Lywodraeth y DU i wneud y cywiriadau hyn mewn cysylltiad â Chymru ac ar ei rhan, er sicrhau effeithlonrwydd a hwylustod a sicrhau cysondeb ac chydlyniad y llyfr statud. Mae'r diwygiadau wedi'u hystyried yn llawn, ac nid ydynt yn newid polisi. Bydd y diwygiadau hyn yn sicrhau bod y llyfr statud yn parhau'n ymarferol ar ddiwedd y Cyfnod Gweithredu.